


Prifysgol Aberystwyth University

Yr Adran
Ieithoedd Modern

Astudiaethau israddedig mewn

# Ieithoedd Modern

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Proffiliau Myfyrwyr | t.2 |
| Ieithoedd a addysgir yn yr Adran | t.4 |
| Strwythur addysgu | t.6 |
| Ein cyrsiau | t.7 |
| Blwyddyn dramor a chyfleoedd byd-eang | t.12 |
| Uchwafbwyntiau'r ymchwil yr Adran | t.15 |
| Cyflogadwyedd | t.16 |
| Sut i wneud cais | t.17 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2024
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mawrth 2025), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



# Croeso

## i'r Adran Ieithoedd Modern

Rydym yn gymuned ddeinamig, groesawgar a'ch datblygiad llwyddiannus yw ein prif ffocws. Rydym yn y 3ydd safle yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, yn 1af am Adborth ac yn 1af am roi Gwerth Ychwanegol ym maes Ieithoedd ac Ieithyddiaeth yn Nhabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2024.

Yn yr Adran Ieithoedd Modern rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau i astudio Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg ac Eidaleg, naill ai fel rhaglenni anrhydedd sengl, neu fel rhaglenni anrhydedd cyfun. Mae Aberystwyth yn un o lond llaw yn unig o brifysgolion yn y Deyrnas Unedig sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio cyfuniad o dair iaith, hyd yn oed o lefel dechreuwyr. Hefyd, gallwch gyfuno eich astudiaeth o iaith ag ystod eang o bynciau eraill, gan gynnwys Cysylltiadau Rhyngwladol, y Gyfraith, Busnes, Saesneg, Ysgrifennu Creadigol, Drama a Theatr, a Hanes.

Ar draws pedair blynedd eich BA mewn Ieithoedd Modern, byddwch yn datblygu i fod yn ieithydd proffesiynol, gan raddio â hyfedredd lefel uchel yn yr iaith (ieithoedd) o'ch dewis. Rydym ni'n rhoi pwyslais arbennig o gryf ar gyflogadwyedd a gwerth datblygu sgiliau iaith ar gyfer bywyd proffesiynol. O ganlyniad i'n gwaith wedi'i dargedu yn y maes hwn, mae ein graddedigion yn mynd ymlaen i gael llwyddiant mawr mewn ystod eang o lwybrau gyrfa ledled y byd. Gan ategu eich astudiaethau sydd â phwyslais ar iaith, gallwch ddewis dilyn modiwlau dewisol arbenigol, a gynlluniwyd i ddyfnhau eich gwybodaeth am bynciau cenedlaethol a thrawsgenedlaethol mewn cymdeithas a diwylliant. Mae ein haddysgu yn cael ei lywio gan ein hymchwil o ansawdd uchel, ac mae ein dull arloesol o addysgu ac asesu yn gwneud dysgu iaith yn Aberystwyth yn brofiad deniadol, grymusol a chyffrous i'n holl fyfyrwyr.

Byddwch yn cymryd rhan yn y cynllun Blwyddyn Dramor yn eich trydedd flwyddyn o astudio: yn astudio, dysgu Saesneg gyda'r cyngor Prydeinig, neu ymgymryd â gwaith a lleoliadau gwirfoddol. Mae'r Flwyddyn Dramor yn rhoi cyfleoedd i ymdrochi'n llawn yn yr ieithoedd a'r diwylliannau rydych chi'n eu hastudio. Pan fyddwch yn dychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn olaf fel myfyriwr israddedig, byddwch yn meddu ar ddirnadaeth, gwybodaeth a hyder amhrisiadwy, a fydd yn sicrhau eich bod yn weithiwr eithriadol o werthfawr yn y dyfodol gyda sgiliau a rhinweddau amlwg sy'n fanteisiol iawn yn y gweithle. Byddwn yn eich cefnogi drwy gydol y profiad, o'ch paratoi ar gyfer eich amser dramor i'ch croesawu'n ôl i Aber, oherwydd gwyddom fod galluogi ein myfyrwyr i fanteisio i'r eithaf ar y nodwedd ganolog hon o'n graddau yn sicrhau eu bod yn graddio fel dinasyddion byd-eang sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn falch iawn o'ch gwahodd i ymweld â ni, ac edrychaf ymlaen at eich croesawu i'r Adran. Dewch i ymuno â ni yn ein lleoliad unigryw a hardd yng Ngorllewin Cymru a gadewch i ni ddweud mwy wrthych am ein graddau, a'ch cyflwyno i'n cymuned fywiog, glos a chroesawgar o ddarlithwyr, ysgolheigion a myfyrwyr.

Arrivederci / À très bientôt /
Hasta pronto / Bis bald,

**Yr Athro Louise Marshall, Pennaeth yr Ysgol**

# Fy mhrofiad

## fel myfyriwr iaith yn Aberystwyth...

### Erykah Williams-McIntosh

**Ffrangeg a Sbaeneg (RR14)**

"Wrth dyfu i fyny yn Walsall, roeddwn bob amser yn gwybod mai ieithoedd oedd fy angerdd. Cyflwynais gais i'r brifysgol i astudio Ffrangeg a Llenyddiaeth Saesneg i ddechrau, ond ar ôl cyrraedd Aberystwyth, newidiais i Ffrangeg a Sbaeneg o fewn yr wythnos gyntaf. Er fy mod yn poeni am fy Sbaeneg i ddechrau, fe wnaeth y gefnogaeth gan ddarlithwyr a ffrindiau roi hwb mawr i'm hyder, ac es i ymlaen o nerth i nerth wedi hynny.

Roedd yr addysgu yn Aberystwyth yn eithriadol. Roedd fy narlithwyr yn agos-atoch, yn ennyn diddordeb ac yn gefnogol. Hyd yn oed ar ôl graddio, roeddent yn parhau i fod yn adnoddau amhrisiadwy y gallwn gysylltu â nhw bob amser i gael cyngor a chefnogaeth. Ffilm ac Astudiaethau Diwylliannol oedd fy hoff fodiwlau, gan ennyn cariad dwfn at y pwnc a ddaeth yn ganolbwynt traethawd hir fy ngradd Meistr, a dyna fyddai fy arbenigedd academaidd pe bawn i'n penderfynu dychwelyd i'r byd academaidd. Roedd hyd yn oed y cyrsiau yr oeddwn yn amheus yn eu cylch i ddechrau – megis Ffrangeg Busnes – yn ddiddorol iawn, diolch i ddarlithwyr ysbrydoledig.

Roedd fy mlwyddyn dramor, yn ystod y pandemig, yn heriol ond yn drawsnewidiol. Roedd astudio ym Mhrifysgol Sorbonne ym Mharis ac Universidad de Córdoba yn Sbaen yn caniatáu imi adeiladu cyfeillgarwch gydol oes, ymgolli mewn diwylliannau newydd, a meithrin hyder i siarad yn rhugl. Roedd bywyd cymdeithasol bywiog Aberystwyth—coelcerthi ar y traeth, nosweithiau yn y Pier, a chyfeillgarwch oes—hefyd wedi gadael atgofion parhaol.

Ar ôl ennill gradd Dosbarth Cyntaf, fe wnes i barhau â'm hastudiaethau gyda gradd Meistr ym Mhrifysgol St Andrews. Ers hynny, mae fy angerdd am ieithoedd wedi datblygu - gan wneud i mi ddifaru na wnes i astudio Almaeneg yn Aberystwyth, gan fod cymaint o ffrindiau yn canmol y cwrs.

Heddiw, rwy'n falch o weithio fel Swyddog Prosiect 'Black Queer and Thriving', gan ddefnyddio Ffrangeg, Sbaeneg ac ieithoedd eraill yn fwy na'r Saesneg yn fy rôl. Rwyf hefyd yn rhedeg busnes tiwtora llwyddiannus ar-lein. Wrth fyfyrio ar fy mhrofiad, rwy'n hynod ddiolchgar am yr addysgu a'r profiadau sydd wedi dylanwadu arnaf."





### Carys Davies

**Ffrangeg a Sbaeneg (RR14)**

"Roedd astudio Ffrangeg a Sbaeneg yn Aberystwyth yn brofiad a newidiodd fy mywyd ac a ragorodd ar fy nisgwyliadau. Cefais fy nenu ar unwaith i'r adran Ieithoedd Modern yn Aberystwyth oherwydd angerdd a gwybodaeth y darlithwyr. Datblygais nid yn unig fy ngallu ieithyddol mewn Ffrangeg a Sbaeneg, ond hefyd fy nealltwriaeth o ddiwylliannau Ffrangeg a Sbaenaidd sy'n glod i'r adran gan eu bod yn ymroddedig iawn i gefnogi myfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau. Roedd y gymuned glos yn ffactor enfawr wrth ddewis Aberystwyth, ac ategwyd hyn i mi yn ystod fy astudiaethau gan y byddai'r darlithwyr yn rhoi adborth manwl ac roeddent bob amser yn barod i ateb unrhyw gwestiynau.


Heb os, y Flwyddyn Dramor oedd un o'm huchafbwyntiau personol. Astudiais yn yr Université Bordeaux-Montaigne am y semester cyntaf ac yn yr Universidad de Sevilla am yr ail. Yn ystod fy nghyfnod yn y ddwy brifysgol, astudiais gyfieithu a'm hysgogodd i fod eisiau dewis cyfieithu fel llwybr ar gyfer gradd Meistr. Roedd Bordeaux a Sevilla yn ddinasoedd rhagorol a oedd ill dwy yn gyfoethog o ran hanes a diwylliant. Llwyddais i ymgolli'n llwyr yn yr ieithoedd a'r diwylliant wrth i mi ymweld â Saint-Émilion, prifddinas gwin Bordeaux, sawl gwaith ac ehangu fy ngwybodaeth am ddiwylliant gwin. Yn Sevilla, cefais amser anhygoel yn profi'r Semana Santa gyda fy ffrindiau a mynd i'r Feria de Abril, a dawnsio fflamenco gyda phobl leol. Rwyf wedi gwneud cymaint o ffrindiau anhygoel a hyd heddiw rydym yn trefnu aduniadau, ac wedi ymweld â sawl gwlad gyda'n gilydd.

Ni allwn fod wedi gofyn am brofiad myfyriwr gwell yn Aberystwyth, felly dychwelais i astudio gradd Meistr mewn Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol. Rwyf wedi cyfieithu rhai erthyglau a hyd yn oed barddoniaeth o'r Ffrangeg a'r Sbaeneg i'r Gymraeg. Diolch i gysylltiadau a sefydlwyd rhwng y ddau sefydliad, mae gennyf gyfle ar hyn o bryd i ymgymryd â swydd ddysgu yn Rennes am flwyddyn. Mae byw yn Llydaw wastad wedi bod yn freuddwyd i mi, a dwi'n ddiolchgar iawn am y cyfle hwn."









# Ieithoedd a addysgir yn yr Adran

## Ffrangeg

Mae'r iaith Ffrangeg yn hynod o bwysig ym myd cysylltiadau rhyngwladol heddiw ac fe'i defnyddir mewn nifer fawr o sefydliadau rhyngwladol fel y Cenhedloedd Unedig. Mae'n iaith swyddogol mewn 29 o wledydd ac mae yna 220 miliwn o siaradwyr brodorol.

**Pam astudio Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth?**

Mae Ffrangeg yn cael ei siarad ledled y byd fel iaith frodorol neu ail iaith gan hyd at hanner biliwn o bobl. Mae'r byd Ffrangeg ei iaith yn ymestyn ar draws y byd o Ewrop i Affrica, Asia a chyfandiroedd America. Mae Ffrangeg yn bwysicach nag erioed o'r blaen ac mae'r gallu i gyfathrebu mewn Ffrangeg yn sgìl amhrisiadwy.

Yn Aberystwyth, bydd astudio Ffrangeg yn eich galluogi i ddatblygu'ch cymwyseddau ieithyddol ymhellach ond ar yr un pryd archwilio a datblygu'ch gwybodaeth am ddiwylliant, llenyddiaeth, celf, a ffilm Ffrangeg, a defnydd ymarferol o'r iaith mewn cyd-destun busnes. Bydd ein hystod eang o fodiwlau ichi ddewis o'u plith yn datblygu'ch sgiliau cyfathrebu a dadansoddi, sy'n dra dymunol ymysg sefydliadau rhyngwladol ledled y byd.

Ar ôl cwblhau cwrs pedair blynedd mewn Ffrangeg, byddwch wedi magu lefel uchel o hyfedredd yn yr iaith, yn ogystal â dealltwriaeth feirniadol o agweddau allweddol ar ddiwylliant modern a chyfoes Ffrainc a'r byd Ffrangeg ei iaith.

## Almaeneg

Almaeneg yw iaith busnes a chyllid a'r iaith a siaredir yn fwyaf eang yn yr Undeb Ewropeaidd.

**Pam astudio Almaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth?**

Does dim modd gwahanu iaith, diwylliant a hanes, a bydd astudio Almaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn dangos ichi fod yna fwy i ddiwylliant, iaith a hanes yr Almaen nag y gallech fod wedi'i ddisgwyl.

Mae sgiliau mewn Almaeneg yn ddymunol iawn ymysg cyflogwyr mewn busnes rhyngwladol mewn ystod eang o feysydd gan gynnwys cyllid, marchnata, cyfieithu, addysgu, y cyfryngau, y celfyddydau, cyhoeddi, a'r gwasanaeth sifil. Mae yna brinder brawychus o bobl yn y Deyrnas Unedig sy'n gallu siarad un o'r ieithoedd tramor pwysicaf ar gyfer ffyniant y wlad a'i statws byd-eang. Bydd siarad Almaeneg yn rhoi mantais gystadleuol wirioneddol ichi yn y farchnad swyddi.

Mae ein holl gyrsiau Almaeneg yn cael eu haddysgu gan siaradwyr brodorol, ac yn cynnig hyfforddiant iaith gynhwysfawr ar y cyd â chyfle i archwilio diwylliannau, llenyddiaethau a hanesion deallusol y gwledydd Almaeneg eu hiaith.

## Sbaeneg

Sbaeneg yw mamiaith tua 400-450 miliwn o bobl, sy'n golygu mai hi yw'r ail iaith fwyaf cyffredin sy'n cael ei siarad yn y byd.

**Pam astudio Sbaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth?**

Sbaeneg yw un o'r tair iaith ryngwladol bwysicaf yn y byd, ac mae'n cael ei siarad fel iaith gyntaf yn Ewrop, De America, Affrica ac yn gynyddol yn yr Unol Daleithiau.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, cewch gyfle i ddarganfod diwylliant a hanes Sbaen ac America Ladin drwy amrywiaeth o fodiwlau craidd a modiwlau dewisol sydd ar gael ichi yn ystod y cwrs gradd pedair blynedd. Erbyn diwedd y cwrs, bydd gennych feistrolaeth rugl ar Sbaeneg yn ogystal â gafael a gwybodaeth gadarn ar ddiwylliant Sbaen ac America Ladin.

Mae galw mawr am raddedigion Sbaeneg ymysg cyflogwyr amlwladol sy'n gwerthfawrogi'r sgiliau cyfathrebu a'r sgiliau rhyngddiwylliannol sy'n cael eu magu drwy raddau mewn iaith. Gall cwrs Sbaeneg agor llawer o gyfleoedd cyffrous mewn meysydd fel gwleidyddiaeth ryngwladol, busnes, cyllid, marchnata, addysgu a chyfieithu neu gyfieithu ar y pryd.

## Eidaleg

Mae tua 85 miliwn o bobl yn siarad Eidaleg, sy'n un o brif ieithoedd Ewrop. Mae ganddi ddylanwad helaeth yn y celfyddydau ac mewn marchnadoedd bwydydd a nwyddau moethus.

**Pam astudio Eidaleg ym Mhrifysgol Aberystwyth?**

Mae astudio Eidaleg yn rhoi cyfle ichi archwilio gyrfaoedd mewn addysgu, y celfyddydau cain, bancio, y cyfryngau, twristiaeth a'r gyfraith i enwi ychydig yn unig.

Mae'r Eidal yn bartner gwleidyddol pwysig yn yr Undeb Ewropeaidd; mae'n rym blaenllaw mewn meysydd fel peirianneg a phensaernïaeth. Mae'r Eidal hefyd yn gartref i'r diwydiant dylunio a'r diwydiant ffasiwn. Bydd dealltwriaeth a rhugldder cynyddol mewn Eidaleg yn golygu y gallwch archwilio rhai o'r cyfraniadau mawr at fywyd diwylliannol Ewrop, gan gynnwys ffilm a llenyddiaeth, yn eu hiaith frodorol.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, gallwch astudio Eidaleg o lefel dechreuwyr ymlaen. Byddwn yn defnyddio ein dulliau a'n methodolegau arloesol ac unigryw wrth addysgu, gan gynnwys gweithgareddau grŵp bach a chymorth athrawon brodorol a myfyrwyr cyfnewid brodorol o'r Eidal.

# Strwythur addysgu

Bydd gradd o'r Adran Ieithoedd Modern yn eich galluogi i ganolbwyntio ar dri maes datblygu eang:

- lefel uchel o hyfedredd yn eich dewis iaith/ieithoedd astudio
- dealltwriaeth fanwl o ddiwylliant, cymdeithas, gwleidyddiaeth, economeg, hanes a llenyddiaeth y gwledydd lle siaredir yr ieithoedd hyn
- sgiliau trosglwyddadwy eithriadol sy'n cynnwys sgiliau 'meddal', datrys problemau, cyfathrebu ysgrifenedig a llafar eithriadol, sgiliau rhyngddiwylliannol a dadansoddol a fydd yn ddeniadol iawn i ddarpar gyflogwyr

Addysgir ein modiwlau gan ddefnyddio cyfuniad o ddarlithoedd, seminarau a sesiynau gweithdy ymarferol, gan roi gwybodaeth graidd i chi, gwybodaeth gyfoes, a chyfleoedd i drafod syniadau pwysig mewn amgylchedd grŵp bach.

Mae ein dosbarthiadau iaith yn ymdrin â'r sgiliau canlynol:

- gwrando
- gramadeg/ysgrifennu
- cyfieithu
- sgwrsio

Mae'r dosbarthiadau iaith dwys yn cael eu haddysgu mewn grwpiau bach, wedi'u cynllunio i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar eich datblygiad ieithyddol yn ystod pedair blynedd eich cynllun gradd. Mae gennym nifer uwch o ddosbarthiadau iaith ar bob lefel (o leiaf 5 awr yr wythnos fesul iaith) nag yn y rhan fwyaf o brifysgolion.

Mae ein haelodau o staff yn angerddol am eu pwnc ac yn awyddus i rannu eu brwdfrydedd a'u gwybodaeth a arweinir gan ymchwil gyda'r myfyrwyr. Mae eu harbenigedd yn rhychwantu ystod eang o bynciau, gan greu hyblygrwydd i arbenigo neu gymysgu a chyfateb opsiynau. Mae'r ddarpariaeth iaith hefyd yn cael ei hategu gan gyfarfodydd gyda Chynorthwywyr Iaith i ymarfer siarad ymhellach, yn ogystal â chyfleoedd i ymuno ag un o'n cymdeithasau iaith.





# Ein cyrsiau


| | |
|---|---|
| Ffrangeg | t.8 |
| Ieithoedd Modern | t.9 |
| Sbaeneg ac Astudiaethau America Ladin | t.10 |
| Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc | t.11 |




# Ffrangeg

0% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | R120 | 4 blynedd

Mae'r radd hon yn ddelfrydol i'r rheini sydd wedi sefydlu diddordebau eang yn y byd Ffrangeg ei iaith ac sy'n awyddus i ddysgu mwy mewn amgylchedd cyfeillgar a chydweithredol.

Cewch eich tywys trwy amrywiol nodweddion, themâu a chyfnodau'r iaith Ffrangeg, yr hanes gwleidyddol-gymdeithasol, llenyddiaeth, ffilm a diwylliant. Does dim angen sgiliau blaenorol yn eich dewis iaith gan y gallwch ymuno ar lefel dechreuwr, a gweithio tuag at lefel uchel o rugl der. Yn ystod y cynllun gradd pedair blynedd, caiff eich gallu ieithyddol ei wella trwy hyfforddiant wythnosol sy'n cwmpasu gwrando, darllen/ysgrifennu, a sgwrsio, yn ogystal â gramadeg, cyfieithu, ac ieithyddiaeth. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd Dechreuwyr (heb Ffrangeg Safon Uwch neu gyfatebol) yn astudio cwrs iaith dwys. Bydd yr holl fyfyrwyr yn astudio modiwl a fydd yn eu cyflwyno i'r cwestiynau a'r testunau sy'n allweddol i hanes Ffrainc a gwledydd Ffrangeg eu hiaith. Cewch hefyd ddethol o blith modiwlau dewisol ar ddiwylliant, llenyddiaeth a hanes (sy'n cwmpasu ystod o genres a chyfnodau hanesyddol); ffilm; hanes syniadau a mudiadau artistig; a materion cyfoes.

**Eich blwyddyn dramor**

Dyma'r uchafbwynt i bob myfyriwr, a bydd yn un o'r profiadau mwyaf cofiadwy a gewch yn eich bywyd. Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol i'n myfyrwyr:

- astudio yn un o'n prifysgolion partner ledled Ewrop
- astudio mewn ysgol iaith breifat
- gweithio fel Cynorthwyydd dysgu Saesneg gyda'r Cyngor Prydeinig
- mynd ar leoliad profiad gwaith mewn gwlad Ffrangeg ei hiaith.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Beginners French neu
- French Language Advanced
- Introduction to French Studies

**Yr ail flwyddyn:**
- French Language

**Y drydedd flwyddyn:**
- Year Abroad Assessment.

**Y flwyddyn olaf:**
- French Language
- Anrhydedd sengl

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Gender in Modern and Contemporary French Culture
- Humour and Literature
- Introduction to European Film
- Language, Culture, and Identity in Europe
- Narrating and Visualising French Colonialism
- Self-writing, 18th-21st Centuries
- History, Film, Memory: Representing World Wars in French Cinema
- Travel and Literature.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Ffrangeg oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Ffrangeg ar Lefel Uwch oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau

**Pwyslais marcio:** Tua 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau



# Ieithoedd Modern

0% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | R990 | 4 blynedd

Aberystwyth yw un o lond llaw yn unig o brifysgolion yn y DU i gynnig cyfle i fyfyrwyr astudio cyfuniad o hyd at dair iaith, a chewch ddechrau astudio'r tair heb fod wedi gwneud hynny o'r blaen.

Cewch ddewis o blith Ffrangeg, Eidaleg, Almaeneg, a Sbaeneg. Nid yn unig byddwch yn magu gwybodaeth ymarferol am dair iaith a rhugl der yn yr ieithoedd hynny, ond byddwch hefyd yn dysgu deall sefyllfa'r ieithoedd hyn mewn cyd-destun byd-eang ehangach. Bydd dechreuwyr yn dilyn cwrs dwys yn y flwyddyn gyntaf, sy'n cynnwys modiwl iaith dwys a chyflwyniad cyffredinol i wareiddiad a diwylliant Ewrop. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, bydd pob myfyriwr ar y cwrs dechreuwyr yn ymuno â'r myfyrwyr yn y dosbarth lefel uwch. Os ydych yn ymuno â ni ar y lefel uwch, bydd y flwyddyn gyntaf yn mireinio'r sgiliau a ddysgwyd i chi ar eich cwrs Safon Uwch ac yn eich paratoi ar gyfer y tair blynedd nesaf a'r flwyddyn dramor.

**Eich blwyddyn dramor**

Dyma'r uchafbwynt i bob myfyriwr, a bydd yn un o'r profiadau mwyaf cofiadwy a gewch yn eich bywyd. Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol i'n myfyrwyr:

- astudio yn un o'n prifysgolion partner
- astudio mewn ysgol iaith breifat
- gweithio fel Cynorthwyydd Saesneg gyda'r Cyngor Prydeinig
- mynd ar leoliad profiad gwaith mewn gwlad sy'n berthnasol i'ch dewis iaith neu ieithoedd.

Yn draddodiadol ar y flwyddyn dramor, os ydych yn astudio mwy nag un iaith bydd eich amser yn cael ei rannu rhwng dwy wlad er mwyn hwyluso'r broses o'ch trochi'n llwyr mewn mwy nag un iaith a diwylliant.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Beginners (French, German, Spanish, Italian) *neu*
- Advanced (French, German, Spanish).

**Yr ail flwyddyn:**
- Language (French, German, Spanish, Italian)

**Y drydedd flwyddyn:**
- Year Abroad Assessment

**Y flwyddyn olaf:**
- Language (French, German, Spanish, Italian).

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, sy'n cynnwys y rhai a restrir ar gyfer Ffrangeg (R120) a Sbaeneg (R401), yn ogystal â:

- Children's Literature in German
- Short Prose in German
- German-speaking Refugees from National Socialism in the UK
- Rethinking late 20th-century Italy
- Italian Cities

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch mewn iaith berthnasol oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn un iaith berthnasol ar Lefel Uwch oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau

**Pwyslais marcio:** Tua 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau

# Sbaeneg ac Astudiaethau America Ladin

ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | R401 | 4 blynedd

Cynlluniwyd y cynllun gradd pedair blynedd hwn i roi gwybodaeth ymarferol drylwyr ichi o'r Sbaeneg a bydd yn rhoi'r gallu ichi fyfyrio ar lenyddiaeth hanesyddol a chyfoes, cymdeithas, sinema, cyfieithu a gwleidyddiaeth yn Sbaen ac America Ladin. Does dim angen sgiliau blaenorol yn Sbaeneg gan y gallwch ymuno ar lefel dechreuwr, a gweithio tuag at lefel uchel o rugldeb.

Ceir dau lwybr ar y radd hon yn y flwyddyn gyntaf yn unig. Bydd yr holl fyfyrwyr yn dilyn modiwl a fydd yn eu cyflwyno i sgiliau hanfodol astudiaethau Hisbaenaidd. Bydd dechreuwyr (heb Sbaeneg Safon Uwch neu gyfatebol) yn astudio cwrs iaith dwys, tra bydd myfyrwyr uwch yn astudio modiwl iaith ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i wareiddiad a diwylliant Hisbaenaidd.

**Eich blwyddyn dramor**
Dyma'r uchafbwynt i bob myfyriwr, a bydd yn un o'r profiadau mwyaf cofiadwy a gewch yn eich bywyd. Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Sbaeneg ac Astudiaethau America Ladin yn Aberystwyth:

- astudio yn un o'n prifysgolion partner
- astudio mewn ysgol iaith breifat
- gweithio fel Cynorthwyydd Saesneg gyda'r Cyngor Prydeinig
- mynd ar leoliad profiad gwaith mewn gwlad sy'n berthnasol i'ch dewis iaith neu ieithoedd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Beginners Spanish *neu*
- Spanish Language Advanced
- Study and Research Skills.

**Yr ail flwyddyn:**

- Research Project
- Spanish Language.

**Y drydedd flwyddyn:**

- Year Abroad Assessment.

**Y flwyddyn olaf**

- Spanish Language
- Traethawd hir (Anrhydedd sengl).

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Introduction to European Film
- Language, Culture, and Identity in Europe
- Seeing Spain through Cinema
- The Cuban Revolution
- Spanish American Cinema
- The Spanish Avant-garde
- Hispanic Civilization
- Cuban Cinema of the Revolution
- Reading Late 19th Century Literature.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Sbaeneg oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Sbaeneg ar Lefel Uwch oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau

**Pwyslais marcio:** Tua 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau



# Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc - iaith gyda phwnc arall

Yn Aberystwyth cewch gyfle i astudio Sbaeneg, Ffrangeg neu Almaeneg ar y cyd ag amrywiaeth o bynciau eraill ar gwrs gradd Anrhydedd Cyfun. Mae hyn yn golygu y gallwch elwa yn sgil datblygu sgiliau a gwybodaeth drylwyr yn un o'r ieithoedd hyn ochr yn ochr â phwnc arall yr ydych yn ei fwynhau. Does dim angen sgiliau blaenorol yn eich dewis iaith gan y gallwch ymuno ar lefel dechreuwr, a gweithio tuag at lefel uchel o rugldeb.

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun | Prif/is-bwnc |
|---|---|---|---|
| **Almaeneg** | Cysylltiadau Rhyngwladol | 22LR | |
| | Eidaleg | RR32 | |
| | Ffrangeg | RR12 | |
| | Hanes | RV21 | |
| | Sbaeneg | RR24 | |
| | Y Gyfraith | RM21 | |
| **Eidaleg** | Almaeneg | RR32 | |
| | Ffrangeg | RR31 | |
| | Sbaeneg | RR43 | |
| **Ffrangeg** | Almaeneg | RR12 | |
| | Busnes a Rheolaeth | NR11 | |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | 1FRL | |
| | Drama a Theatr | RW14 | |
| | Eidaleg | RR31 | |
| | Llenyddiaeth Saesneg | QR31 | |
| | Mathemateg | GR11 | |
| | Sbaeneg | RR14 | |
| | Y Gyfraith | RM11 | |
| **Sbaeneg** | Addysg | | XR04 |
| | Almaeneg | RR24 | |
| | Busnes a Rheolaeth | NR14 | |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | 4FRL | |
| | Drama a Theatr | RW44 | |
| | Eidaleg | RR43 | |
| | Ffrangeg | RR14 | |
| | Marchnata | NR55 | |
| | Y Gyfraith | RM41 | |
| | Ysgrifennu Creadigol | WR84 | |

# Blwyddyn dramor a chyfleoedd byd-eang

Yn rhan o'ch gradd mewn Ieithoedd Modern yn Aberystwyth, byddwch yn treulio eich trydedd flwyddyn dramor, i ymdrochi'n llawn yn eich iaith/ieithoedd astudio.

Mae tri opsiwn ar gyfer eich Blwyddyn Dramor: gallwch astudio yn un o'n prifysgolion partneriaethol neu mewn ysgol iaith; gallwch ddysgu Saesneg fel Cynorthwyydd i'r Cyngor Prydeinig; neu gallwch weithio neu wirfoddoli.

Os byddwch yn dewis astudio dramor, gallwch ddewis o blith ystod o opsiynau yn Ffrainc a Gwlad Belg (Ffrangeg), yr Almaen ac Awstria (Almaeneg), Sbaen ac America Ladin (Sbaeneg), a'r Eidal.

Byddwch yn cael cymorth a chefnogaeth benodol wrth baratoi ar gyfer eich Blwyddyn Dramor a threfnu eich cyfnod neu gyfnodau dramor. Ar gyfer pob iaith, aelod o staff ymroddedig fydd cydlynydd eich Blwyddyn Dramor, a byddant yn eich helpu i lywio eich opsiynau, yn ogystal â'r camau gweinyddol ac ymarferol tuag at sicrhau eich lleoliad. Mae'r profiad o dreulio blwyddyn dramor yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr, sy'n cydnabod yr annibyniaeth a'r dyfeisgarwch sydd gan raddedigion o ganlyniad.

Nid y Flwyddyn Dramor yw'r unig gyfle i wella'ch dysgu drwy gyfrwng amser a dreulir dramor: gall ein myfyrwyr fanteisio ar gyfnewidfeydd byr rheolaidd a phreswyliadau. Bydd aelodau o staff a thîm Cyfleoedd Byd-eang y Brifysgol yn barod iawn i roi gwybod i chi am gyfleoedd o'r fath a'ch helpu i wneud cais amdanynt.



# Ymchwil

Mae ein staff yn arbenigwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol yn eu meysydd. Cyhoeddir eu gwaith gyda thai cyhoeddi ac adolygiadau clodwiw, a chanmoliaeth gan y beirniaid, ac maent yn effeithio ar bolisïau yng Nghymru ac yn y DU. Mae eu hymchwil yn sail i'r addysgu yn ein hystod gyfoethog o fodiwlau diwylliannol.

## Geiriadur Eingl-Normanaidd

Mae’r Dr Geert De Wildes a’i dîm yn arwain gwaith ailargraffiad Anglo-Norman Dictionary (AND). Eingl-Normaneg yw'r ffurf ar Ffrangeg a ddefnyddid yng ngwledydd Prydain yn y canol oesoedd, o 1066 hyd y 15fed ganrif, ac a gafodd ddylanwad enfawr ar hanes a datblygiad y Saesneg Modern. Mae tîm y prosiect yn cyhoeddi, fesul cam ac ar-lein, fersiwn estynedig o'r geiriadur sydd wedi’i ddiwygio’n llawn, ac yn datblygu opsiynau chwilio newydd ac uwch.

## Dylanwadwyr trefedigaethol?

Mae'r prosiect hwn, dan arweiniad Dr Gábor Gelléri, a ariennir gan yr Academi Brydeinig, yn dilyn hanes nad oedd yn hysbys o’r blaen am grŵp o fyfyrwyr benywaidd elitaidd o Ffrainc a anfonwyd i Indo-Tsieina drefedigaethol i weld gweithredoedd mawr trefedigaethedd a dod yn eiriolwyr drosto. Trwy ymchwil archifol a chyfweliadau â disgynyddion y cyfranogwyr, mae'n ystyried y rhesymau niferus pam y methodd y prosiect hwn, a sut y gwnaeth cynulleidfaoedd lleol ymateb (ymsefydlwyr Ffrengig a'r rhai wedi’u gwladychu) i bresenoldeb yr ymwelwyr anarferol hyn.

## Ieithoedd Modern Creadigol ac Asesiad Creadigol

Dan arweiniad Dr Alex Mangold, mae'r prosiect Ieithoedd Modern Creadigol yn cael ei ariannu gan yr Academi Brydeinig a'i nod yw nodi enghreifftiau o ymchwil artistig ac asesiadau "creadigol" anhraddodiadol a ddefnyddir mewn Ieithoedd Modern ledled sector Addysg Uwch y DU. Ac yntau yn ei ail gam, mae'r prosiect bellach yn edrych ar Asesiad Creadigol fel adnodd cynhyrchiol ar gyfer ysgolion sy'n gweithio gyda'r Cwricwlwm Newydd yng Nghymru, ac i athrawon sy'n gweithio gyda ffurfiau creadigol o asesu ledled y DU.

## Datblygu ap iaith Sbaeneg

Wedi'i ariannu gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, a'i ddatblygu mewn cydweithrediad â'r Adran Gyfrifiadureg, bydd y prosiect hwn, dan arweiniad Dr Guy Baron, yn creu ap adolygu iaith Sbaeneg newydd, a fydd ar gael am ddim i holl fyfyrwyr Sbaeneg i'w gwneud hi’n haws iddynt adolygu ac atgyfnerthu rhai o elfennau hanfodol eu cwrs.

## Meddygaeth, Llenyddiaeth a'r Wasg

Mae'r prosiect hwn, dan arweiniad José Goñi Pérez, yn dadansoddi data a dynnwyd o gyfnodolion meddygol ac iechyd cyhoeddus Sbaenaidd a gyhoeddwyd rhwng 1850 a 1900. Mae'n astudio disgyrsiau ar salwch, trosglwyddo gwybodaeth, ar bolisïau meddygol a effeithiodd ar famau a phlant, yn ogystal â ffuglen a ysgrifennwyd gan feddygon yn y cyfnodolion hyn.






## Ffoaduriaid ym Mhrydain a ddihangodd rhag Sosialaeth Genedlaethol

Mae’r Athro Andrea Hammel yn ymchwilio i fywydau a gwaith y rhai y bu’n rhaid iddynt ffoi o ganol Ewrop oherwydd yr unbennaeth Natsïaidd, gyda chanolbwynt arbennig ar Kindertransport a phrofiad y rhai a ymgartrefodd yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at lyfrau ar gyfer cynulleidfaoedd ac arddangosfeydd academaidd ac ehangach a ddangoswyd, ymhlith eraill, yn y Senedd a Thŷ'r Cyffredin yn San Steffan. Mae hi wedi cyflwyno ei gwaith yn Llyfrgell Holocost Wiener yn Llundain, Gŵyl Lenyddol y Gelli a’r Bundestag yn yr Almaen.

## Merched a’r Avant-Garde Sbaeneg

Mae Dr Jennifer Wood yn gweithio ar gyfraniad menywod, sy'n aml yn cael ei anwybyddu, i fudiad avant-garde Sbaen: llawer mwy nag awenau’n unig, roeddent yn grewyr ac arloeswyr yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar sut yr oeddent yn herio normau rhywedd, maes sydd ar hyn o bryd yn cael ei amlygu’n ddiwylliannol wrth i'r mudiad Swrrealaidd nodi ei ganmlwyddiant. Mae ei gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar gyfeillgarwch creadigol rhwng yr artist Maruja Mallo a'r bardd Concha Méndez, yn ogystal ag ar gynrychioliadau o'r ffurf fenywaidd.



# Cyflogadwyedd

Mae'r ystadegau'n dangos bod graddedigion ieithoedd modern ymhlith y rhai mwyaf cyflogadwy, ac mae'n graddau yn mynd â'n myfyrwyr ar draws y byd.

Mae llawer o'n graddedigion yn gweithio ym maes cyllid, busnes, ymgynghori, addysg, lles cymdeithasol, iechyd a'r cyfryngau. Ar ôl hyfforddiant bellach, mae llawer o raddedigion ieithoedd yn dilyn gyrfa yn cyfieithu ar y pryd, cyfieithu dogfennau ac addysgu.

### Y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogaeth

Mae'r Brifysgol yn cynnig gwasanaeth gyrfaoedd a chyflogaeth i'r holl fyfyrwyr a graddedigion. Gallwch gael gwybodaeth am yrfaoedd, ystyried eich opsiynau a siarad ag ymgynghorydd fydd yn gallu eich cynghori am gyfleoedd ym maes eich gradd neu faes arall o'ch dewis. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyngor ar baratoi CV, ymgeisio am swyddi, ac mae hefyd yn gyfle gwych i greu rhwydweithiau gyda recriwtwyr graddedigion mewn Ffeiriau Gyrfaoedd a digwyddiadau.

Yn ogystal, os ydych yn edrych am brofiad gwaith, gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd roi cymorth ichi gyda pharatoi a threfnu'ch lleoliad gwaith.



# Y broses ymgeisio

## 1 Gwnewch gais trwy UCAS.com

Gwiriwch y dyddiad cau UCAS ar UCAS.com. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40. **COFIWCH:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y Brifysgol yn ystyried eich cynnig

**COFIWCH:** Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn saith diwrnod.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar Hwb UCAS

Bydd penderfyniad y Brifysgol yn cael ei ddangos ar Hwb UCAS - os ydych wedi derbyn cynnig, fe fyddwch yn gallu gweld pa raddau sydd angen arnoch i sicrhau eich lle.

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau Cadarn ac Wrth Gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis Cadarn/Wrth Gefn gallwch wneud cais am lety.

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd Hwb UCAS yn dangos os yw eich lle wedi'i gadarnhau gyda'ch Dewis Cadarn. Os nad ydych wedi cael y graddau yr oeddech yn gobeithio, gallwch ystyried gwneud cais drwy Glirio.

## 7 Dechreuwch bacio!

Cofiwch gadw llygad ar eich e-byst am wybodaeth am eich diwrnod cyntaf a'r gweithgareddau croeso.

Yr Adran Ieithoedd Modern,
Prifysgol Aberystwyth,
Adeilad Huw Owen,
Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3DY

+44 (0)1970 62 1537

modernlangs@aber.ac.uk

/ModLangsAber

@modlangsaber




Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2025.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%